| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD:** | **22, HYDREF, 2009** |
| **TEITL:** | **LWFANSAU AELODAU** |
| **PWRPAS:** | **ADFER Y LWFANS I GADEIRYDD Y PWYLLGOR CWYNION.** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **CYNG. J. R. JONES, UWCH ARWEINYDD PORTFFOLIO - ADNODDAU.** |
| **AWDUR:** | **DILYS PHILLIPS,<br>PENNAETH DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL.** |

**1.** Yn ei gyfarfod ar y 7fed o Fai, 2009, fel rhan o gyfres o ddiwygiadau i'r Cyfansoddiad, fe fabwysiadodd y Cyngor gynllun lwfansau newydd i aelodau ar gyfer 2009/10. Y bwriad oedd gweithredu rhai o argymhellion y Panel Annibynnol ar Lwfansau drwy gyflwyno lwfans gofal a lwfans i aelodau cyfetholedig. Nid oedd bwriad i wneud unrhyw newidiadau o sylwedd i weddill y cynllun.

**2.** Trwy gamgymeriad cafodd y Pwyllgor Cwynion ei hepgor o'r rhestr o Bwyllgorau oedd yn gymwys i ddenu lwfans. O'r herwydd ataliwyd y lwfans i Gadeirydd y Pwyllgor o fis Mai ymlaen.

**3.** Gofynnir i'r Cyngor gywiro'r sefyllfa trwy adfer lwfans Cadeirydd y Pwyllgor Cwynion ac yn unol â'r drefn arferol ôl-ddyddio'r taliad i ddechrau'r flwyddyn ariannol. Swm blynyddol y lwfans ydi £2,272.

**4.** Fel y gwŷr yr aelodau, mae'r Panel Annibynnol ar Lwfansau Aelodau wedi cyhoeddi ei gasgliadau cychwynnol ac wedi ymgynghori arnynt. Disgwylir iddo gyflwyno ei adroddiad terfynol ar gyfer 2010/11 ym mis Rhagfyr. Yn dilyn hynny fe gyflwynir adroddiad pellach i'r Cyngor ynglŷn â'r gyfundrefn lwfansau ar gyfer 2010/11 a'r blynyddoedd dilynol.

**ARGYMHELLIAD.**

**5.** Bod y Cyngor yn cytuno i ddiwygio cymal 4.1.5 o'r Cynllun Lwfansau drwy gynnwys y Pwyllgor Cwynion fel un o'r pwyllgorau sydd i ddenu lwfans i'r Cadeirydd ac i'w ôl-ddyddio i ddechrau'r flwyddyn ariannol.